# Blwyddlyfr Plant a Phobl Ifanc

## *Children's and Young Adults' Yearbook*

**2022**




CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL of WALES

Rydym yn awyddus i weld Cymru lle mae pob un ohonom wedi dod o hyd i'r llyfr iawn; y geiriau sy'n ysbrydoli, yn addysgu, yn iacháu, neu'n syml yn rhoi pleser i ni. Rydym yn awyddus i weld ein straeon – o'r gorffennol, y presennol a'r dyfodol – yn cael eu hadlewyrchu o fewn tudalennau'r llyfrau rydym yn eu darllen.

Rydym yn awyddus i ddod at ein gilydd gydag un nod cyffredin: darllen mwy er mwyn gwneud mwy.

Rydym wedi curadu dewis anhygoel o lyfrau i blant ac oedolion ifanc ar gyfer ein Blwyddlyfr eleni; maen nhw'n cynnig toreth o gyfleoedd newydd a chyffrous i ddarllen ac yn arddangos teitlau newydd a gyhoeddwyd yng Nghymru yn 2021 – yn Gymraeg, yn Saesneg ac yn ddwyieithog.

O lyfrau bwrdd lliwgar i nofelau heriol ar gyfer oedolion ifanc, mae rhywbeth yma ar gyfer pob oedran a diddordeb, ynghyd â rhestr gynhwysfawr o adnoddau sydd ar gael i helpu dysgwyr ar eu taith addysgol.

Gyda rhyw 300 o lyfrau newydd, mae'r amrywiaeth yn cynnwys teitlau a gyhoeddwyd yng Nghymru gyda'n cymorth ni, ac yn adlewyrchu holl ystod gwahanol ddiddordebau a chwaeth darllenwyr ifanc. Gallwch hefyd gael mynediad atynt mewn fformat e-lyfr oddi ar y platfform digidol pwrpasol **ffolio.cymru**

Mae yna, wrth gwrs, lawer mwy o lyfrau ar gael i blant ac oedolion ifanc nag a gynhwysir yn rhifyn eleni o'r Blwyddlyfr. Gallwn rannu gyda chi fanylion yr holl deitlau o Gymru sydd ar gael, ac mae croeso i chi gysylltu â ni os oes gennych ddiddordeb.

Cymerwch gip ar ein gwefan **gwales.com** lle gallwch hefyd ddod o hyd i gyfoeth o adolygiadau i'ch helpu i ddewis. Mae'r holl deitlau ar gael i'w prynu drwy eich llyfrwerthwr lleol, gyda llawer o siopau'n cynnig gwasanaeth i archebu llyfrau ar-lein a'u derbyn drwy'r post, neu wasanaeth clicio a chasglu.

Gobeithiwn yn fawr y byddwch yn mwynhau pori drwy'n Blwyddlyfr ac yn cael ysbrydoliaeth i barhau ar eich taith ddarllen.

**@LlyfrDaFabBooks** #carudarllen #lovereading

We want a Wales where each one of us has found the right book; the words that inspire, educate, heal, or simply delight us. We want to see our stories, past, present and future, reflected within the pages of the books we read.

We want to be united in a common purpose: to read more to do more.

We have curated a fantastic selection of books for children and young adults for this year's annual Yearbook and they present so many new and exciting reading opportunities, showcasing new titles published in Wales in 2021 – in Welsh, in English and bilingually.

From colourful board books to gritty YA novels, there is something here for every age and interest, as well as a comprehensive list of resources available to support learners on their educational journey.

With around 300 new books, the variety of content includes titles published in Wales with our support and reflects the varied interests and tastes of young readers. You can also access them in e-book format from the dedicated digital platform **ffolio.cymru**

There are of course many more books for children and young adults than are featured in this year's edition and we can share the details of all available titles from Wales with you, so please do get in touch if you are interested.

Take a look at our **gwales.com** website where you'll also find a wealth of reviews to help you choose. All of the titles are available to buy through your local bookseller, with many offering online ordering and postal deliveries or click and collect services.

We hope you enjoy browsing our Yearbook and find inspiration here to continue on your reading journey.

**@LlyfrDaFabBooks** #carudarllen #lovereading

**Helgard Krause**

**Prif Weithredwr** ***Chief Executive***

**Rydym ni yn y Cyngor Llyfrau bob amser yn chwilio am gyfleoedd i rannu'r cyfoeth o lyfrau ac adnoddau newydd sydd ar gael, fel bod darllenwyr yn gallu cael eu hysbrydoli i ymgysylltu â llenyddiaeth o safon uchel ar draws nifer o *genres* gwahanol.**

**Mae meithrin cariad at ddarllen er pleser yn ganolog i'n gwaith a'n gweledigaeth. Yn ein hymgyrchoedd i ddathlu darllen, ein nod yw ysbrydoli plant ac oedolion ifanc i fagu perthynas bositif gyda llyfrau a darllen, a bydd hynny, yn ei dro, yn sicr o effeithio ar bob agwedd o'u datblygiad.**

**Darllen Dros Gymru** a **BookSlam** yw ein cystadlaethau darllen difyr i blant oedran cynradd; maen nhw'n cynnig cyfle gwych i drafod llyfrau, i feddwl mewn ffordd ddychmygus, ac i annog egin-gynhyrchwyr sy'n awyddus i droi eu llaw at greu fideos hyrwyddo. Mae ein rhestrau llyfrau ar gyfer heriau 2022 yn llawn i'r ymylon o deitlau gwych i danio'r dychymyg ac ysbrydoli creadigrwydd.

Rydym bob amser wrth ein bodd yn cael cyfle i ddathlu rhagoriaeth ym maes llenyddiaeth plant o Gymru ac am Gymru, ac mae ein gwobrau blynyddol – **Gwobrau Tir na n-Og** – yn parhau i'n galluogi i wneud hynny. Ers 1976 rydym wedi amlygu llu o awduron sydd wedi llunio testunau o safon uchel ar gyfer darllenwyr ifanc, a hynny yn Gymraeg a Saesneg. Edrychwn ymlaen yn eiddgar at weld beth sydd gan y beirniaid answyddogol ar ein Cynllun Cysgodi poblogaidd i ysgolion i'w ddweud am y teitlau sydd ar y rhestr fer.

Mae yna rywbeth hudolus ynghylch gwrando ar awdur neu ddarlunydd yn sôn am eu taith i mewn i fyd llyfrau. Ar gyfer 2022 rydym yn cynllunio nifer o **Ddigwyddiadau Awdur** cyffrous mewn lleoliadau ledled Cymru. Gall y sesiynau hyn sbarduno hyd yn oed y darllenydd mwyaf anfoddog, gan roi ysbrydoliaeth i danio'r elfen greadigol.

Mae **Diwrnod y Llyfr** yn gyfle gwych i rannu straeon, tanio'r dychymyg a rhannu'r pleser a geir o ddarllen. Mae sicrhau mynediad rhwydd at lyfrau o bob math yn allweddol i'n cenhadaeth yn y Cyngor Llyfrau, a chan fod Diwrnod y Llyfr yn dathlu ei ben-blwydd yn 25 oed yn 2022 byddwn yn sicr yn dathlu'r pleser a geir o ddarllen gyda chynifer o bobl ag sy'n bosibl.

Gall cynnal yr arfer o ddarllen dros gyfnod hir gwyliau'r haf fod yn dipyn o her, felly byddwn yn parhau i gydweithio â'n ffrindiau yn The Reading Agency a chyda llyfrgelloedd ym mhob cwr o Gymru i annog plant i gymryd rhan yn y cynllun gwych **Sialens Ddarllen yr Haf**. Mae'r cyfan yn rhad ac am ddim ac yn cynnig cyfle i ennill nifer o dystysgrifau a gwobrau gwerth chweil.

**Os hoffech gael rhagor o wybodaeth, gallwch:**
**ymweld â'n gwefan llyfrau.cymru/carudarllen**
**e-bostio cllc.plant@llyfrau.cymru**
**neu ein dilyn ar Facebook neu**
**Twitter @LlyfrDaFabBooks**
**#carudarllen #lovereading**

Helen Jones

**Helen Jones**
***Pennaeth Llyfrau Plant a Hyrwyddo Darllen***

At the Books Council of Wales we are constantly searching for opportunities to share the wealth of new books and resources so that readers can be inspired to engage in quality literature across a variety of genres.

Nurturing a love of reading for pleasure is central to our work and vision. In our campaigns that celebrate reading, our aim is to inspire children and young people to develop a positive relationship with books and reading that will inevitably impact upon all aspects of their development.

**Darllen Dros Gymru** and **BookSlam** are our fun reading challenges for primary age pupils and are a great opportunity to discuss books, to think imaginatively and for budding film-makers to try their hand at creating promo videos. Our 2022 challenge booklists are full to the brim of awesome titles to fire the imagination and inspire creativity.


We are always excited to celebrate excellence in the field of children's literature from and about Wales, and our annual **Tir na n-Og Awards** continue to enable us to do so. Since 1976 we have showcased so many authors that have crafted quality Welsh- and English-language content for young readers. We can't wait to see what our unofficial judges from our popular Shadowing Scheme for schools think of the shortlisted titles.

There is something magical about hearing an author or illustrator talk about their journey into the world of books. In 2022 we have some exciting **Author Events** planned across Wales. These sessions can inspire even the most reluctant reader and provide inspiration that can spark creativity.

**World Book Day** is a fantastic opportunity to share stories, fire the imagination and share the joy of reading. Ensuring ready access to books of all kinds is key to our mission at the Books Council, and as 2022 is World Book Day's 25th birthday we'll be ensuring that we celebrate the joy of reading with as many people as possible.

Keeping the reading habit alive during the long summer holidays can be challenging, so we'll continue working with our friends at the Reading Agency and with libraries across Wales to encourage children to get involved in the brilliant **Summer Reading Challenge**. It's free to take part – and there are some great prizes and certificates to be won.

**If you'd like to find out more you can:**
**visit our website at books.wales/carudarllen**
**email wbc.children@books.wales**
**or follow us on Facebook or**
**Twitter @LlyfrDaFabBooks**
**#carudarllen #lovereading**



**Helen Jones**
***Head of Children's Books and Reading Promotion***




Darluniau / *Illustrations* – Nia Tudor

Dalier sylw – gall fod newidiadau yn y prisiau
*Please note – prices may change without notification*

Cyngor Llyfrau Cymru · *Books Council of Wales* · Castell Brychan · Aberystwyth · Ceredigion · SY23 2JB
01970 624151 · llyfrau.cymru · gwales.com · books.wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

# **Cynnwys** ***Contents***


**Teitlau Cymraeg / dwyieithog**
***Welsh / bilingual titles***

Oed *Age* 0–3 9
Oed *Age* 3–7 19

**Teitlau Cymraeg**
***Welsh titles***

Oed *Age* 7–9 44
Oed *Age* 9–11 50
Oed *Age* 11+ 58
Cylchgronau *Magazines* 61

**Teitlau Saesneg**
***English titles***

Oed *Age* 0–3 62
Oed *Age* 3–7 63
Oed *Age* 7–9 69
Oed *Age* 9–11 72
Oed *Age* 11+ 75

**Teitlau addysgol – Uwchradd** 77
***Educational titles – Secondary***

# 1000 Geiriau Cyntaf / *First 1000 Words in Welsh*

## Roger Priddy (Addas. Glyn Saunders Jones)




Llyfr bywiog gyda lluniau lliwgar yn cyflwyno 1,000 o eiriau cyntaf, syml i blant bach ar themâu megis Bwyd, Anifeiliaid, Y Cartref, Yr Ysgol, Y Teulu, Swyddi ac O Gwmpas y Byd.

*A lively book with colourful images presenting 1,000 simple, first words to young children, on themes such as Food, Animals, the Home, School, Family, Jobs and Around the World.*

dwyieithog bilingual 80 9781801060929 £9.99 Atebol

# 123 gyda Llygoden Fach

## Lluniau gan Leonie Servini




Hwyl a sbri wrth gyfrif o 1 i 10 gyda Llygoden Fach. Mae yna lawer o bethau i'w gweld ac i siarad amdanyn nhw ar bob tudalen. Beth mae Llygoden Fach yn ei wneud? Sawl seren sydd yn yr awyr?

*Have fun learning to count from 1 to 10 with Little Mouse. There are lots of things to see and talk about on each page. What is Little Mouse doing? How many stars are in the sky?*

16 9781849675826 £5.99 Rily

# ABC gyda Llygoden Fach

## Lluniau gan Leonie Servini




Dewch i ddysgu'r wyddor gyda Llygoden Fach. Pwy sy'n dathlu yn y parti? I ble mae'r fan yn mynd? Mewn dim o dro byddwch chi'n adnabod pob llythyren, o 'a' i 'y'.

*Come and learn the alphabet with Little Mouse. Who celebrates at the party? Where does the van go? You will soon know every letter, from 'a' to 'y'.*

16 9781849675833 £5.99 Rily

*Cyfres Archwilwyr Bychain / Little Observers*

# Ar y Traeth / *On the Beach*

## Clare Beaton (Addas. Mared Llwyd)




Dewch o hyd i gregyn sgleiniog, bwcedi a rhawiau, a gwyliwch greaduriaid yn sgrialu ymysg y tonnau. Bydd archwilwyr bychain wrth eu bodd yn darganfod rhyfeddodau'r byd o'u cwmpas.


*Spot the shimmering seashells, buckets and spades, and watch creatures scurrying in the breaking waves. Little observers will love sensing the wonder in the world around them.*

dwyieithog bilingual 16 9781849675581 £4.99 Rily

*Cyfres Archwilwyr Bychain / Little Observers*

# Yn Gwersylla / *Go Camping*

### Clare Beaton (Addas. Mared Llwyd)




Dewch o hyd i'r chwilod a'r pilipalod ar y llwybrau natur, a gwersylla wrth y tân o dan y sêr. Bydd archwilwyr bychain wrth eu bodd yn darganfod rhyfeddodau'r byd o'u cwmpas.


*Spot bugs and butterflies on the nature trails, and camp with open fires under the night skies. Little observers will love sensing the wonder in the world around them.*

dwyieithog bilingual 16 9781849675574 £4.99 Rily

*Cyfres Babi Cyffwrdd a Theimlo / Baby Touch and Feel Series*

# Lliwiau a Siapiau / *Colours and Shapes*

### Dawn Sirett (Addas. Elin Meek)





O ieir bach yr haf sidanaidd i orenau anwastad, mae pob math o weadau i'r babi eu harchwilio yn y llyfr saff, cadarn hwn sy'n hybu dysgu cynnar.

*From silky butterflies to bumpy oranges, there are all sorts of textures for baby to explore in this safe, sturdy book that encourages early learning.*

dwyieithog bilingual 12 9781784231903 £4.99 Dref Wen

# Cyfri'r Dyddiau tan y Nadolig

### Holly Price, Will Putnam, Amy Oliver (Addas. Awen Schiavone)




Trwy agor y calendr adfent a throi'r olwynion, daw'r golygfeydd yn fyw yn y llyfr mydr ac odl hwn. Dyma ffordd hyfryd o gyfri'r dyddiau cyn dathlu diwrnod Nadolig.

*The Advent calendar at the back of the book encourages readers to open the numbered flaps in the story.*

8 9781849676281 £6.99 Rily

*Disney Bach*

# Fy Lliwiau Cyntaf

### (Addas. Lowri Head)




Mae eich hoff gymeriadau Disney a Pixar yma i ddangos holl liwiau'r enfys – a mwy!

*Everyone's favourite Disney and Pixar characters are here to show you all the colours of the rainbow – and more!*

20 9781849675987 £5.99 Rily

*Disney Bach*

## Geiriau Cyntaf

### (Addas. Lowri Head)




Dere i ddysgu 100 gair cyntaf gyda dy ffrindiau bach Disney. Gyda thudalennau cadarn ar gyfer bysedd bach a llawer o bethau difyr i'w gweld, bydd y llyfr tabiau hyfryd hwn yn diddanu plant bach am oriau.


*Learn 100 first words with your Disney baby friends. With sturdy pages for little hands to hold and lots of fun things to spot, this delightful tabbed board book will keep toddlers entertained for hours.*

20 9781849675956 £5.99 Rily

*Y Drych Hud*

## Anifeiliaid y Fferm

### (Addas. Mared Llwyd)




Tyrd i gwrdd ag anifeiliaid y fferm yn y llyfr hwyliog hwn a'i ddrych hud. Cei chwarae gyda gwartheg, moch, ceffylau a geifr, ond pwy yw'r mwyaf swnllyd ohonynt i gyd?

*Play along with favourite farm animals in this delightful board book. The mirror on each page lets little ones roar, squeak, baa and growl along with the animal.*

10 9781849675734 £5.99 Rily

*Y Drych Hud*

## Anifeiliaid Bychain

### (Addas. Mared Llwyd)




Tyrd i gwrdd ag anifeiliaid bychain yn y llyfr hwyliog hwn a'i ddrych hud. Cei chwarae gyda chwningod, ŵyn, cŵn bach a chywion, ond pwy yw'r anwylaf ohonynt i gyd?

*Play along with favourite baby animals in this delightful board book. The mirror on each page lets little ones roar, squeak, baa and growl along with the animal.*

10 9781849675727 £5.99 Rily

## Fy Meibl Lliw

### Jacob Vium-Olesen




Beibl o ffabrig sy'n ddiogel ar gyfer y plant lleiaf.

*A cloth bible that is safe for the smallest children.*


8 9781859949320 £6.99 Cyhoeddiadau'r Gair

# Y Gryffalo – Llyfr Gwthio, Tynnu a Llithro / *The Gruffalo – A Push, Pull and Slide Book*

### Julia Donaldson (Addas. Gwynne Williams)

Beth sy'n digwydd pan fydd Llygoden yn cwrdd â llwynog, tylluan, neidr a gryffalo barus? Gwthiwch, tynnwch, sleidiwch y tabiau i weld!

*What happens when Mouse meets a hungry gruffalo? Push, pull and slide the scenes to find out!*




dwyieithog bilingual 10 9781784231736 £5.99 Dref Wen

---

*Gwibwyr Gwych*

# Croeso i'r Syrcas

### (Addas. Anwen Pierce)

Ymunwch â'r ffrindiau a dewch i fwynhau'r sioe wych. Cyfrol fach fywiog, yn llawn symudiadau slic i'w mwynhau!

*Join the friends and come and enjoy the great show. A lively volume, full of slick moves to enjoy! A Welsh adaptation of* Welcome to the Circus.




10 9781849675888 £5.99 Rily

---

*Gwibwyr Gwych*

# Gwyliau'r Haf

### (Addas. Anwen Pierce)

Ymunwch â'r ffrindiau a dewch ar wyliau go arbennig. Cyfrol fach fywiog, yn llawn symudiadau slic i'w mwynhau!

*Join the friends and come on a really special holiday. A lively volume, full of slick moves to enjoy! A Welsh adaptation of* Summer Holiday.




10 9781849675871 £5.99 Rily

---

*Gwibwyr Gwych*

# Miri'r Môr-ladron

### (Addas. Anwen Pierce)

Ymunwch â'r ffrindiau a dewch ar helfa drysor. Cyfrol fach fywiog, yn llawn symudiadau slic i'w mwynhau!

*This bright novelty board book is packed with animal characters and features smooth and sturdy mechanisms which provide hours of fun! A Welsh adaptation of* A Day with the Pirates.





10 9781849675819 £5.99 Rily

*Cyfres Gwthio, Tynnu, Troi*

## Cloddwyr Prysur / *Push, Pull and Turn Series: Busy Diggers*

**(Addas. Elin Meek)**




Mae'r cloddwyr enfawr yn brysur nawr, yn gwneud eu gwaith, boed fach neu fawr! Wrth wthio, tynnu, troi a llithro, daw'r cloddwyr prysur yn fyw! Testun dwyieithog ar ffurf mydr ac odl.


*The mighty diggers have work to do. No job is too big for this hard-working crew! Push, pull, turn and slide to bring the busy diggers to life! A bilingual text in rhyme.*

dwyieithog bilingual 8 9781784231835 £4.99 Dref Wen

*Cyfres Gwthio, Tynnu, Troi*

## Gorsaf Dân Brysur / *Push, Pull and Turn Series: Busy Fire Station*

**(Addas. Elin Meek)**




Mae'r seiren yn udo a'r golau glas yn fflachio, mae'r criw ymladd tanau'n gwibio a rhuthro! Wrth wthio, tynnu, troi a llithro, daw'r orsaf dân brysur yn fyw!


*The siren wails, the lights flash blue, Here comes the firefighting crew! Push, pull, turn and slide to bring the busy fire station to life!*

dwyieithog bilingual 8 9781784231842 £4.99 Dref Wen

*Cyfres Gwthio, Tynnu, Troi*

## Nadolig Prysur / *Busy Christmas*

**(Addas. Elin Meek)**





Llyfr cyntaf am y Nadolig ar gyfer plant bach, gyda thabiau i'w tynnu, eu gwthio a'u troi.

*A first novelty book about Christmas for young children, with push, pull and slide mechanisms.*

dwyieithog bilingual 8 9781784231101 £4.99 Dref Wen

## Lliwiau Cyntaf Babi / *Baby's First Colours*

**Sally Beets (Addas. Elin Meek)**




Bydd eich baban yn mwynhau enwi lliwiau ac adnabod gwrthrychau cyfarwydd gyda chi yn y llyfr geiriau cyntaf hyfryd hwn. Mae pob delwedd yn cyfuno ffotograffiaeth drawiadol gyda dyluniad llachar sy'n ysgogi synhwyrau'r baban.

*Your baby will love naming colours and identifying familiar objects with you in this delightful first words book. Each image combines bold photography with bright designs to stimulate baby's senses.*

dwyieithog bilingual 12 9781784231583 £3.99 Dref Wen

# Mae Archarwyr yn Golchi eu Dwylo! / *Superheroes Wash Their Hands!*

### Katie Button (Addas. Llinos Dafydd)




Ymuna gyda'r archarwyr wrth iddyn nhw ddangos i ti sut i olchi dwylo'n effeithiol, a gwylia'r feirws erchyll yn mynd yn llai ac yn llai. Dilynir cyfarwyddiadau golchi dwylo Sefydliad Iechyd y Byd.

*Join the superheroes as they show you how to wash your hands effectively, and watch as the villainous virus character gets smaller and smaller. Follows World Health Organization hand washing guidance.*

dwyieithog bilingual 14 9781849675666 £5.99 Rily

# Nadolig Cadi a Jac / *Cadi and Jac's Christmas*

### Sam Taplin (Addas. Bethan Mai Jones)





Llyfr bwrdd stori o'r gyfres Cae Berllan. Bydd plant wrth eu boddau'n sbecian trwy'r tyllau yn y llyfr hudolus hwn wrth iddynt helpu Cadi a Jac i chwilio am Siôn Corn.

*A story board book in the Cae Berllan series. Young children will enjoy peeping through the peep-holes in this charming book as they help Cadi and Jac look for Father Christmas.*

dwyieithog bilingual 16 9781801061087 £5.99 Atebol

# Nos Da, Llew / *Goodnight Lion*

### Joshua George (Addas. Llinos Dafydd)




Mae Llew yn barod am y gwely, ond yn gyntaf mae e eisiau dweud nos da i'w ffrindiau. Rhowch y tortsh hud rhwng y tudalennau i ddod o hyd i ffrindiau Llew.

*Lion is ready for bed, but first he wants to say goodnight to his friends. Insert the magic torch between the pages to find Lion's friends.*

dwyieithog bilingual 12 9781849676519 £6.99 Rily

# Olwynion y Bws / *The Wheels on the Bus*

### (Addas. Elin Meek)




Ymuna yn yr hwyl swnllyd wrth i'r bws yrru drwy'r dref yn y llyfr sain anhygoel hwn. Gwasga'r botwm a bydd yn barod am sbri wrth ganu a symud!

*Join all the noisy fun as the bus drives through the town in this amazing sound book. Push the button and get ready for a super-fun sing-along playtime!*

dwyieithog bilingual 8 9781784231538 £6.99 Dref Wen

# Peppa ar Antur

### Astley Baker Davies (Addas. Lowri Head)





Mae'r llyfr hwn yn annog y plant lleiaf i bori'n annibynnol drwy'r tudalennau. Mae'n cyflwyno sgiliau mathemateg cynnar, fel cysylltu a chymharu a dysgu am gysyniadau fel geiriau croes, siapiau a chyfrif.

*Contains 7 busy scenes featuring Peppa and friends, with things to find, and games at the back of the book.*

16 9781849676021 £5.99 Rily

# Peppa'n Mynd i'r Gofod

### Astley Baker Davies (Addas. Lowri Head)




Mae'r llyfr hwn yn sbarduno diddordeb mewn gwyddoniaeth, drwy gyfrwng y darluniau a'r ffeithiau am y gofod. Datblygir sgiliau cynnar mewn mathemateg drwy'r ymarferion cymharu a chysylltu, gyda Peppa Pinc a'i ffrindiau.

*Contains 7 busy scenes featuring Peppa and friends on a space adventure, with things to find and games at the back of the book.*

16 9781849676038 £5.99 Rily

*Plentyn Om*

# Dwi'n Garedig (Ahimsa • Trugaredd • Cymuned)

### Lisa Edwards (Addas. Laura Karadog)




Mae Plentyn Om am ddangos *ahimsa* i ni, a'r holl ffyrdd y gallwn ni fyw mewn heddwch – o ddweud y gwir a rhannu popeth i ddweud diolch.

*A board book designed to introduce little ones to physical and emotional health and wellbeing. It guides young children in fundamental concepts such as kindness, compassion and the importance of community.*

16 9781849675857 £5.99 Rily

*Plentyn Om*

# Dwi'n Hapus (Y Chakra • Lliwiau • Teimladau)

### Lisa Edwards (Addas. Laura Karadog)




Rydyn ni'n caru ein hunain a phob peth arall byw. Lliwiau ac emosiynau ein saith *chakra* sy'n denu sylw Plentyn Om – y grym yn ein cyrff, o gorun ein pennau i'n calonnau.

*A board book designed to introduce little ones to physical and emotional health and wellbeing. It guides young children in fundamental concepts such as colours and emotions.*

16 9781849675840 £5.99 Rily

# Poti Pengwin / *Penguin's Potty*

### (Addas. Gwynne Williams)

Dewch i gael hwyl efo Pengwin wrth iddo ddangos sut i ddefnyddio poti. Gwthia'r botwm a bydd yn barod am amser stori hwyliog a swnllyd.

*Celebrate with Penguin as he shows us how to use the potty. Push the button and get ready for a fun, noisy story time.*




dwyieithog bilingual 8 9781784231804 £6.99 Dref Wen


*Smot*

# Chwilia am Smot yn yr Ysgol Feithrin / *Find Smot at Nursery*

### Eric Hill (Addas. Elin Meek)

Mae'n adeg diod a ffrwyth yn yr ysgol feithrin ... ond ble mae Smot? Chwilia y tu ôl i bob llabed i gael gweld pob math o bethau cyffrous!

*It's snack time at the nursery school ... but where's Smot? Peep behind each flap and discover all sorts of exciting surprises!*




dwyieithog bilingual 14 9781784231675 £5.99 Dref Wen

*Cyfres Storïau Cyntaf*

# Dewin Gwlad yr Os

### (Addas. Non Tudur)

Dewch i'r wlad ryfeddaf a fu gyda Dorothy a'i ffrindiau! Newidiwch y lluniau drwy wthio, tynnu a llithro'r tabiau i ddod â stori Dewin Gwlad yr Os yn fyw.

*Follow the yellow brick road with Dorothy and her friends to the Emerald City! Push, pull and slide to bring the classic story to life.*




10 9781849675758 £4.99 Rily

*Cyfres Storïau Hud*

# Enfys

### (Addas. Llinos Dafydd)

Ewch ar antur liwgar gyda'r Enfys Hud a'i ffrindiau. Trwy wthio, tynnu a llithro'r tabiau, daw eu byd disglair yn fyw.

*A colourful adventure with a friendly Rainbow who brings all her friends together. With push, pull and turn mechanisms, join the magical creatures' colourful day. A Welsh translation of* My Magical Rainbow.




8 9781849675345 £5.99 Rily Clawr Caled

*Cyfres Storïau Hud*

# Santa

**(Addas. Non Tudur)**




Ewch ar antur wych drwy'r awyr gyda Santa. Trwy wthio, tynnu a llithro'r tabiau, daw ei fyd hudolus yn fyw. Llyfr bwrdd perffaith ar gyfer dwylo bychain.


*With push, pull and turn mechanisms, little ones will have lots of fun delivering presents with Santa and finding out just how he gets down all those chimneys! A perfect Christmas board book.*

10 9781849675741 £5.99 Rily

*Cyfres Teimladau Mawr Bach*

# Dwi'n Gallu Bod yn Amyneddgar

**Dr Janet Rose (Addas. Elin Meek)**




Rhannwch y llyfr rhyngweithiol hwn gyda'ch rhai bach i'w helpu i ddysgu bod yn amyneddgar. Gyda fflapiau, olwynion a llithrwyr ynghyd â gweithgareddau syml i'ch helpu hefyd.

*With flaps, tabs and sliders, young children learn how to develop their ability to be patient. This is the perfect book to share with young children who are starting to recognize feelings and develop emotional intelligence.*

10 9781849676113 £5.99 Rily

*Cyfres Teimladau Mawr Bach*

# Dwi'n Gallu Dweud Sori

**Dr Janet Rose (Addas. Elin Meek)**





Rhannwch y llyfr rhyngweithiol hwn gyda'ch rhai bach i'w hannog i ddweud sori. Gydag ambell beth newydd, awgrymiadau ymarferol a gweithgareddau syml i'ch helpu hefyd.

*With flaps, tabs and sliders, young children learn when they need to say sorry. The perfect book to share with young children who are just starting to recognize their feelings and to develop their emotional intelligence.*

10 9781849676106 £5.99 Rily

# A am Anghenfil

**Huw Aaron**





A am Anghenfil. B am Bwci-bo. Pwy arall fydd yn dod draw am de parti, 'sgwn i? Cerdd hollol hurt a doniol yn cymeriadu'n lliwgar holl lythrennau'r wyddor.

*A hilarious and zany poem about weird and wonderful characters who go to a tea party. A colourful and entertaining characterisation of all the letters of the Welsh alphabet.*

32 9781845278281 £6.95 Gwasg Carreg Gwalch

# Yr Addewid

### Nicola Davies (Addas. Mererid Hopwood)




Mae lleidr ifanc yn cipio bag hen wraig, a chaiff ei gorfodi i wneud addewid. Mae'r lleidr ifanc yn cychwyn ar daith sy'n newid ei bywyd a bywydau pobl eraill am genedlaethau i ddod.

*A young thief tries to snatch an old woman's bag. But she has to promise something in return. The young thief embarks on a journey that changes her own life and the lives of others for generations to come.*

48 9781914079344 £7.99 Graffeg

# Am Byth Bythoedd / *Forever*

### Emma Dodd (Addas. Eurig Salisbury)





Mae un arth fach yn gweld bod bywyd yn gallu bod yn anodd weithiau. Ond, mae cariad tad yn para am byth.

*One little polar bear discovers that through life's ups and downs, a father's love lasts forever.*

dwyieithog bilingual 24 9781801060769 £6.99 Atebol

# Angenfilod Mewn Tronsys

### Claire Freedman (Addas. Gwynne Williams)





Tyrd i gwrdd ag angenfilod o bob math, ond mae pob un ohonyn nhw'n mwynhau gwisgo tronsys o bob lliw a llun! Fyddwch chi byth yn cael eich dychryn ganddyn nhw ar ôl darllen y stori wirion yma!

*There are prowly monsters and drooling monsters. There are wild, woolly mountain monsters and spiky, spooky monsters. And they all have one thing in common – they LOVE underpants!*

32 9781784231743 £6.99 Dref Wen

# Artist Ydw I

### Kertu Sillaste (Addas. Mary Jones)




Gall celf fod yn gêm, yn benbleth, neu weithiau'n syrpréis fydd yn ein synnu! Ymunwch â Gwyn wrth iddo gyhoeddi 'artist ydw i,' a dod i wybod beth mae hynny'n ei olygu.

*Art can be a game, a puzzle, or sometimes it can be a surprise that will astonish us! Join Gwyn as he announces 'I am an artist,' and learn what this means.*

36 9781914079924 £7.99 Graffeg

# Y Bachgen a Gododd Wal o'i Gwmpas

### Ali Redford (Addas. Testun Cyf.)





Cododd Bachgen wal o'i gwmpas i'w gadw'n ddiogel. Yna daeth rhywun caredig i'w fyd. Bu'n bownsio ei phêl, yn canu ac yn peintio'r ochr arall i'r wal, a dechreuodd y Bachgen feddwl tybed a allai bywyd ar yr ochr arall fod yn well wedi'r cyfan?

*Boy builds a wall around himself to keep him safe. Soon, he gets acquainted with a kind person. As she bounces her ball, sings and paints on the other side, Boy starts to wonder if life could be better the other side of the wall after all?*

32 9781801060240 £9.99 Atebol

# Ben Llestri a'r Bwced Ych-a-fi

### Huw Davies, Lluniau gan Lowri Roberts




Cyfuniad o stori annwyl a lluniau hyfryd, yn adrodd stori Ben, y bachgen bach direidus sy'n hoffi casglu pethau ych-a-fi mewn bwced a chwarae triciau ar ei rieni.

*A tender story with charming illustrations relating the escapades of a mischievous little boy. Ben collects yucky things in a bucket and plays a trick on his parents.*

24 24 9781800990586 £4.99 Y Lolfa

# Bod yn Gwrtais / *Good Manners*

### Bodhi Hunter (Addas. Bethan Mair)




Mae'n bwysig i rai bach ddysgu sut i fod yn gwrtais. Ymuna â'r anifeiliaid hoffus yn y stori, er mwyn dysgu pryd i ddweud 'Diolch', 'Os gwelwch yn dda' a 'Mae'n ddrwg gen i', a dod i wybod sut mae bod yn gwrtais.

*Good manners are important for little ones to learn. Join animal friends for a story about saying 'Thank you', 'Please' and 'Sorry', and about learning good manners.*

dwyieithog bilingual 32 9781849676052 £5.99 Rily

# Breuddwydia'n Fawr! / *Dream Big!*

### Bodhi Hunter (Addas. Elinor Wyn Reynolds)




Fe alli di wneud unrhyw beth – rho dy feddwl ar waith. Tyrd i gael dy ysbrydoli gan anifeiliaid sy'n llawn syniadau positif ac sy'n cadw breuddwydion mawr yn eu calonnau a'u meddyliau.

*You can do anything – put your mind to it. Dream BIG – believe that you can do it! Meet inspirational animals who embrace the power of positivity by keeping big dreams in their hearts and minds.*

dwyieithog bilingual 32 db 9781849676083 £5.99 Rily

## Broga'n Mynd ar Wyliau / *Frog Goes on Holiday*

**Carly Gledhill (Addas. Elin Meek)**





Antur lachar gyda thyllau pi-po i edrych drwyddyn nhw, sy'n berffaith ar gyfer anturwyr bach. Dydy Broga ddim fel pob broga arall – mae eisiau teithio a gweld y byd. Addasiad Cymraeg o *Frog Goes on Holiday* gyda'r testun Saesneg mewn print llai.

*A bright adventure in a peep-through hole book which is perfect for little explorers. A Welsh adaptation of* Frog Goes on Holiday *with the English text in small print.*

dwyieithog bilingual 32 db 9781784231798 £6.99 Dref Wen

## Bwystfilod Bach / *Little Monsters*

**David Walliams (Addas. Casia Wiliam)**




Mae Udwal yn flaidd BACH â phroblem FAWR. Tydi o ddim yn frawychus! Ac mae hynny'n ei wneud yn wahanol i bawb arall. Ond daw Udwal i weld ei bod yn cŵl i fod yn wahanol...

*Howler is a SMALL werewolf with a BIG problem. He is just not scary! And that makes him the odd one out. But Howler discovers that being the odd one out might just make him the coolest one of all. A bilingual adaptation of* Little Monsters.

dwyieithog bilingual 32 9781801060790 £6.99 Atebol

## Cadi a'r Gwrachod

**Bethan Gwanas**





Mae Cadi yn gwneud rhywbeth ofnadwy i Mabon, ei brawd bach ac mae'n rhaid iddi ofyn am help gan y gwrachod. Ond yn gyntaf, rhaid i Cadi eu helpu nhw. Stori berffaith ar gyfer Noson Calan Gaeaf!

*Cadi treats her little brother Mabon atrociously, and she has to request assistance from the witches. However, in order to gain their help, Cadi must help the witches first of all. A perfect story for Halloween Night!*

44 9781800991316 £5.99 Y Lolfa

## Cân o Falchder

**Michael Morpurgo (Addas. Endaf Griffiths)**





Llyfr hardd mewn mydr ac odl sy'n ddathliad o'n planed ryfeddol a phopeth sy'n byw arni.

*A celebration of all living things written in rhyme. Adaptation of* A Song of Gladness.

36 9781801061575 £12.99 Atebol

## Can Troedfedd o'r Llawr / *Hundred Feet Tall*

**Benjamin Scheuer (Addas. Iwan Huws, Georgia Ruth)**





Mae'r stori hon yn dilyn teulu o gwningod wrth iddyn nhw helpu hedyn i dyfu i fod yn goeden fawr. Llyfr stori-a-llun sy'n dangos i ni y gall hyd yn oed yr hedyn lleiaf dyfu i sefyll gan troedfedd o'r llawr.

*This story follows a family of rabbits as they find a seed and help it to grow into a large tree. A picture story book that shows us that the smallest seed can grow into a hundred-foot tall tree. A bilingual adaptation of* Hundred Feet Tall.

dwyieithog bilingual 40 9781801060783 £6.99 Atebol

## Cath y Siop Lyfrau

**Cindy Wume (Addas. Elin Meek)**




Croeso i siop lyfrau sy'n llawn straeon, sawl antur ac yn gartref i gath go arbennig. Daeth y Siop Llyfrau Plant yn lle prysur, diolch i deulu o gathod.


*Welcome to a bookshop which is brimming with stories, adventures and a very special cat! The Children's Bookshop becomes a hive of activity, thanks to a family of cats. A Welsh adaptation of* The Bookshop Cat.

32 9781784231781 £6.99 Dref Wen

*Ceri a Deri*

## Adeiladu Tŷ i Aderyn

**Max Low (Addas. Mary Jones)**




Pan ddaw Ceri a Deri ar draws aderyn digartref, maen nhw'n penderfynu gwneud tŷ iddo. Maen nhw'n cael llawer o hwyl yn cynllunio'r tŷ perffaith, ond a fyddan nhw'n gallu ei adeiladu?

*When Ceri and Deri find a homeless bird, they decide to make a house for it. They have great fun designing the perfect house, but will they be able to build it?*

36 9781912050055 £7.99 Graffeg

*Ceri a Deri*

## Dim Amser i Glociau

**Max Low (Addas. Mary Jones)**




Un diwrnod, pan fydd Deri yn cyrraedd yn hwyr i ginio gyda Ceri, mae eu ffrind Gwen yn esbonio beth yw cloc a sut y gall eu helpu i roi trefn ar eu diwrnod.

*When Deri arrives late for lunch with Ceri one day, their friend Gwen explains what a clock is and how it can help them organise their day.*

36 9781912050048 £7.99 Graffeg

*Ceri a Deri*

## Mae'n Dda Bod yn Dda

### Max Low (Addas. Mary Jones)




Pan gaiff Ceri a Deri becyn o felysion i'w rhannu, mae eu ffrind Dai yr Hwyaden yn eu helpu i rannu'r melysion rhyngddyn nhw, gyda chanlyniadau annisgwyl!


*When Ceri and Deri receive a pack of sweets to share, their friend Dai Hwyaden helps them, with unexpected results!*

36 9781912050031 £7.99 Graffeg

*Ceri a Deri*

## Y Map Trysor

### Max Low (Addas. Mary Jones)





Pan gaiff Ceri hen fap môr-ladron, mae'r ddau ffrind yn dilyn y cyfarwyddiadau i chwilio am y trysor gyda help eu ffrindiau. Ond pa drysor fyddan nhw'n ei ddarganfod?

*When Ceri is given an old pirate map, the two friends follow the directions in search of the treasure with help from their friends. But what treasure will they find?*

36 9781912213993 £7.99 Graffeg

## Cwmwl Bychan / *Little Cloud*

### Anne Booth (Addas. Eurig Salisbury)





Un tro, roedd dim mwy na breuddwyd o gwmwl yn aros yn yr awyr las, ac fe drodd yn fymryn bach o wyn a thyfu a thyfu ... Dyma stori obeithiol i godi'r galon.

*Once there was a dream of a cloud, waiting, in a blue sky, which became a whisper of white and grew and grew ... A heartfelt, uplifting story.*

dwyieithog bilingual 32 9781913245313 £6.99 Atebol

## Cyfrinach Noswyl Nadolig

### Eurgain Haf




Wyddoch chi fod yr anifeiliaid yn gallu siarad ar Noswyl Nadolig? Maen nhw'n helpu ffoadur amddifad i ddod o hyd i gartref ym Methlehem, Cymru. Stori ac iddi wers bwysig, sef sut i fod yn garedig i bawb, o bob cefndir a hil.

*Did you know that animals can talk to each other on Christmas Eve? They help a deprived refugee find a home in Bethlehem, Wales. A story with an important lesson about being kind to everyone, of every background and race.*

42 9781800991187 £5.99 Y Lolfa

## Cynan a'r Bluen Eira

### Julia Rawlinson (Addas. Anwen Pierce)




Mae'n noswyl Nadolig ac mae Cynan yn poeni. Beth os na all Siôn Corn ddod o hyd i gartref newydd y cwningod? Ymunwch â Cynan a'i ffrindiau wrth iddyn nhw drio helpu'r cwningod i gael Nadolig arbennig. Addasiad Cymraeg o *Fletcher and the Snowflake Christmas*.

*It's Christmas Eve and Cynan is worried. What if Father Christmas cannot find the rabbits' new home? Join Cynan and his friends as they try to help the rabbits have a special Christmas. A Welsh adaptation of* Fletcher and the Snowflake Christmas.

32 9781802580150 £7.99 Graffeg

## Cynan a'r Ddeilen Fach

### Julia Rawlinson (Addas. Anwen Pierce)





Wrth i dymor yr hydref gychwyn, mae Cynan yn poeni'n fawr – mae ei goeden wedi dechrau colli ei dail. Pan mae'r ddeilen olaf yn cwympo, mae Cynan yn teimlo'n ddigalon iawn ... nes iddo ddychwelyd drannoeth i olygfa ogoneddus.

*As autumn begins, Cynan gets worried as his tree begins to lose all its leaves. When the last leaf falls, Cynan feels very despondent ... until he returns the next day to a glorious scene.*

32 9781802580143 £7.99 Graffeg

## Cysga'n Iach, Farchog Bach

### Dr Sharie Coombes (Addas. Ceri Wyn Jones)




Ymunwch â'r Marchog Bach mewn rhigwm ymlaciol sy'n ei helpu i setlo a chysgu'n sownd. Rhan o gyfres o lyfrau stori a ddatblygwyd gan seicotherapydd plant a theuluoedd.

*Join Marchog Bach in a rhyming lullaby that helps him settle and sleep soundly. This title is part of a story book series offering advice for children and parents managing common childhood worries.*

24 9781849675901 £5.99 Rily

*Cyw*

## Bolgi a'r Ŵyn Bach

### Anni Llŷn




Mae Bolgi a chriw Cyw yn dysgu gwers bwysig iawn pan maen nhw'n gofalu am oen bach gwyn ac oen bach du.

*Bolgi and Cyw's friends learn an important lesson when they look after two little lambs, one white and one black.*

24 9781800990593 £3.95 Y Lolfa


Cyw

# Cyw a'r Addurniadau Nadolig

## Anni Llŷn

Mae Cyw a'r criw yn creu addurniadau Nadolig i'w rhoi ar y goeden. Llyfr lliwgar am gymeriadau poblogaidd Cyw.

*Cyw and his friends are creating Christmas decorations to place on the Christmas tree. A colourful book about the popular Cyw characters.*





dwyieithog bilingual 24 9781800991323 £3.95 Y Lolfa

# Y Cyw Hyll / *The Ugly Duckling*

## Georgina Wren (Addas. Bethan Mair)

Pan fydd y cyw bach hyll yn cael ei bryfocio am fod yn wahanol, mae'n gadael y fferm i ddod o hyd i gartref newydd. Ond beth arall fydd cyw bach yn ei ddarganfod ar ddiwedd ei antur?

*When the ugly duckling is teased for being different, he leaves the farm to find a new home. But what else will he discover at the end of his adventure?*





dwyieithog bilingual 32 9781849676045 £5.99 Rily

# Dim Bwystfilod!

## Tracey Hammett (Addas. Anwen Pierce)

Mae'r plant wrth eu boddau pan ddaw bwystfil i ymuno ag Ysgol y Dref. Ond mae'n achosi anhrefn, ac mae Miss a Syr yn dweud bod rhaid iddo fynd. A fydd y plant yn medru eu perswadio na fydd yr ysgol fyth yr un fath heb eu ffrind fflwffiog?

*The children are overjoyed when a monster joins the town school. But his mischief causes chaos, and the teachers say that he must leave. Will the children be able to persuade them that school will never be the same without their fluffy friend?*





32 9781913733452 £7.99 Graffeg

# Y Disgo Dolig Dwl

## Gruffudd Owen, Lluniau gan Huw Aaron

Bob blwyddyn, mae Siôn Corn, Mrs Corn, y Ceirw a'r Corachod yn gweithio'n aruthrol o galed i gael popeth yn barod at y Nadolig. Wedi'r holl waith, gall pawb fwynhau yn y disgo!

*Every Christmas, Santa Claus, Mrs Claus, the Reindeer and Helpers work incredibly hard to ensure everything is ready for Christmas. Afterwards, everyone can enjoy in the disco!*




32 9781845278427 £6.95 Gwasg Carreg Gwalch

# Y Diwrnod Gwaethaf Gorau Erioed

## Sophy Henn (Addas. Elin Meek)





Mae Arthur yn cael y diwrnod gwaethaf erioed felly mae'n rhedeg i ffwrdd. Ond ar ei ffordd yn ôl mae Arthur yn cael ei synnu gan synau bib-bibian, hwtian a rhuo. Efallai nad yw diwrnod Arthur gynddrwg wedi'r cyfan… Addasiad Cymraeg o *The Best Worst Day Ever.*

*Arthur is having the worst day ever. So he runs away. But on his journey back he learns how to turn a stomp into a skip, a huff into a hoot and a roar into a song! Maybe Arthur's day isn't so bad after all… A Welsh adaptation of* The Best Worst Day Ever.

32 9781784231767 £6.99 Dref Wen

# Dweud yr Amser gyda Cadi a Jac / *Telling the Time with Cadi and Jac*

## Heather Amery (Addas. Bethan Mai Jones)




Llyfr bwrdd sy'n dilyn diwrnod Cadi a Jac ar fferm Cae Berllan wrth iddynt ddysgu dweud yr amser. Gall y darllenydd droi'r bysedd ar wyneb y cloc wrth ddilyn y stori.


*A board book that follows a day with Cadi and Jac on Cae Berllan farm as they learn to tell the time. The reader can turn the hands on the clock face to show the time.*

dwyieithog bilingual 26 9781801061056 £9.99 Atebol

*Y Dyn Dweud Drefn*

# Y Dyn Dweud Drefn yn Chwarae Pêl-droed

## Lleucu Lynch




Y drydedd gyfrol yn dilyn helyntion Y Dyn Dweud Drefn. Mae'r Dyn Dweud Drefn yn meddwl mai fo ydi pêl-droediwr gorau Cymru. Tybed all y Ci Bach helpu'r Dyn Dweud Drefn i wireddu ei freuddwyd?

*The third title in the series that follows the man who gives someone a telling off daily. This time he thinks that he is the best footballer in Wales. Will the little puppy help him make his dream come true?*

60 9781845278243 £4.95 Gwasg Carreg Gwalch

# Dyw Dreigiau Ddim yn Rhannu

## Nicola Kinnear (Addas. Elin Meek)





Mae Cochen yn ddraig dda iawn. Mae hi'n dilyn pob un o Reolau'r Dreigiau: mae hi'n dwyn oddi wrth bawb, ac mae hi'n gwrthod rhannu ei thrysor â neb. Mae'r anifeiliaid eraill yn dechrau cael llond bol go iawn.

*Cochen is a very good dragon. She follows all the Dragon Rules; she steals from everybody and refuses to share with anyone, and the other animals have reached the end of their tether with her.*

32 9781784231859 £6.99 Dref Wen

# #Elen Benfelen

## Jeanne Willis (Addas. Eurig Salisbury)





Dyma stori amserol am beryglon difetha dy enw da ar-lein, gan awdur poblogaidd.

*A timely story about ruining your name online. A Welsh adaptation of* Goldilocks *(A Hashtag Tale).*

32 9781913245566 £6.99 Atebol

# Eliffant yn fy Nghegin! / *Elephant in My Kitchen!*

## Smriti Halls (Addas. Aneirin Karadog)




Beth petai ... eliffant yn eich cegin, teigr ar eich toiled, a gorila yn eich ystafell wely! Pan fydd anifeiliaid gwyllt yn symud i mewn i dŷ Rafi, mae angen iddo ddyfeisio cynllun mawr i'w cael yn ôl i'w cartrefi eu hunain.

*What if ... there was an elephant in your kitchen, a tiger on your loo, a gorilla in your bedroom! When wild animals move into Rafi's house, he needs to figure out a big plan to get them back to their own homes.*

dwyieithog bilingual 32 9781849675383 £6.99 Rily

*Enwogion o Fri*

# Cranogwen – Bywyd Arloesol Sarah Jane Rees

## Anni Llŷn




Dyma hanes merch benderfynol wnaeth ddarganfod bod unrhyw beth yn bosib, a hynny mewn cyfnod lle nad oedd gan ferched fawr ddim hawliau. O hwylio llongau i ennill gwobrau fel bardd, roedd bywyd Cranogwen yn llawn amrywiaeth a chyffro.


*This is the story of the determined girl who found out that anything was possible, in a time when women had very few opportunities. From ship's captain to prize-winning poet, Cranogwen's life was full of variety and excitement.*

32 9781914303067 £5.99 BROGA

*Enwogion o Fri*

# Gwen – Bywyd Lliwgar Gwen John

## Casia Wiliam




Dyma hanes merch ifanc oedd wrth ei bodd yn peintio'r byd o'i chwmpas. Er gwaethaf llawer o rwystrau, llwyddodd i wireddu ei breuddwyd i fod yn artist, a bellach, caiff ei hystyried yn un o artistiaid pennaf Cymru.


*This is the story of a determined young girl who loved to paint the world around her, and despite great obstacles, managed to achieve her dream of becoming a famous artist – Gwen John is now accepted as one of Wales' finest artists.*

32 9781914303074 £5.99 BROGA

*Enwogion o Fri*

# Shirley – Bywyd Anhygoel Shirley Bassey

## Bethan Gwanas





Dyma stori merch fach swil o Gaerdydd ddaeth yn seren fyd-enwog. Roedd llais Shirley Bassey yn rhy gryf i gôr yr ysgol, ond erbyn hyn, Shirley yw un o'r perfformwyr mwyaf llwyddiannus erioed, ond dydy ei bywyd ddim wedi bod yn fêl i gyd o bell ffordd.

*This is the story of a determined young girl from Tiger Bay, who loved to sing, and despite great obstacles, managed to achieve her dream of becoming a world famous star.*

32 9781914303081 £5.99 BROGA

# Faint Ydw I'n dy Garu? / *How Much Do I Love You?*

## Isabel Pope (Addas. Bethan Mair)





Faint mae Arth Fawr yn caru Arth Fach? Mor ddwfn â'r môr? Yr un faint â rhif y sêr? Dewch i weld yn y stori dwymgalon hon am gariad rhiant at blentyn bach.

*How much does Mummy Bear love her cub? As deep as an ocean? As high as a mountain? Find out in this heart-warming story about a parent's love for their child.*

dwyieithog bilingual 32 db 9781849676069 £5.99 Rily

# Ffrindiau Bwni Bach

## Steve Smallman (Addas. Anwen Pierce)




Drwy'r dyddiau da a drwg, hapus a thrist, wrth ein hochr mae ein ffrindiau triw. Addasiad Cymraeg mewn mydr ac odl o *Little Bunny's Book of Friends*.

*During the good and bad days, the happy and sad days, by our side we have those who help us by laughing and crying with us, and by giving us a* cwtsh*. These are the true friends whom we treasure. A Welsh adaptation of* Little Bunny's Book of Friends.

48 9781802580532 £6.99 Graffeg

# Meddyliau Bwni Bach

## Steve Smallman (Addas. Anwen Pierce)




Pan mae popeth o chwith, ymuna â Bwni Bach am funud dawel a llonydd yn y llyfr hyfryd hwn. I rywun arbennig.

*When everything is going haywire, join Little Rabbit for some stillness and peace in this charming book. For someone special. A Welsh adaptation of* Little Bunny's Book of Thoughts.

48 9781802580099 £6.99 Graffeg


*Ffwlbart Ffred*

## Yn Dywyll fel Bol Buwch

**Sioned Wyn Roberts**

Mae Ffred a'i ffwlbart mewn trwbwl bob tro. Ond mae'r ffwlbart yn jiniys ac yn datrys y cwbwl!

*Ffred and Ffwlbart are always in trouble, but Ffwlbart is also a genius who solves every problem!*





28 9781913245412 £6.99 Atebol

## Haliwch yr Hwyliau! / *Shiver Me Timbers!*

**Oakley Graham (Addas. Elinor Wyn Reynolds)**

Ymunwch â Chapten Barti Ddu a'i griw o fôr-ladron wrth iddyn nhw chwilio am drysor mewn stori antur wyllt, wallgo ar y moroedd mawr!

*Join Captain Black and his pirate crew as they go looking for treasure in a swashbuckling, sea shanty adventure on the high seas!*





dwyieithog bilingual 32 db 9781849676090 £5.99 Rily

## Hapusrwydd Yw... / *Happiness Is...*

**Isadora Rose (Addas. Elinor Wyn Reynolds)**

Beth yw hapusrwydd? Ai dal llaw ffrind neu neidio mewn pwll dŵr a sblashio? Ai cael hwyl yn y parc neu fwynhau cael dy gwtsho?

*What is happiness? Is it holding hands with a friend or jumping in a muddy puddle? Is it playing on the swings, or warming up with a cuddle?*




dwyieithog bilingual 32 db 9781849676076 £5.99 Rily

## Helwyr Sbageti / *Spaghetti Hunters*

**Morag Hood (Addas. Elin Meek)**

Ymuna â Hwyaden a Ceffyl Pitw i chwilio am y pasta mwyaf lletchwith ohonyn nhw i gyd ... Sbageti!


*Join Duck and Tiny Horse on a hunt for the trickiest of all the pasta.*




dwyieithog bilingual 32 db 9781784231750 £6.99 Dref Wen

# Hen Ddiwrnod Bach Diflas

## Jill Murphy (Addas. Elin Meek)




Stori hyfryd am ddiwrnod ym mywyd teulu'r Tedis annwyl. Roedd hi wedi bod yn noson hir ... felly dihunodd Mr a Mrs Tedi yn hwyr. Stori ysgafn am ddiwrnod teuluol y bydd rhieni a phlant ym mhobman yn ei adnabod.

*An endearing story about a day in the life of the Teddy family. It had been a long night, and Mr and Mrs Teddy get up late. This is a light-hearted story about a family day that parents and children everywhere will recognise.*

32 9781784231866 £6.99 Dref Wen

# Yr Hwyaden nad Oedd yn Hoffi Dŵr

## Steve Small (Addas. Elin Meek)




Un tro, roedd hwyaden nad oedd yn hoffi dŵr. Ond yna, dyma'r hwyaden yn cwrdd â broga a oedd yn hoffi dŵr. Stori am ddod o hyd i gyfaill, hyd yn oed os oes rhaid wynebu ofnau wrth wneud hynny.

*Once upon a time, there was a duck that didn't like water. Then the duck met a frog who loved water. A story about gaining a friend, even though that may entail facing fears.*

32 9781784231644 £6.99 Dref Wen

# Yr Iac Lleiaf

## Lu Fraser (Addas. Gwynne Williams)




Gwenni ydy'r iac lleiaf yn y byd efo carnau bach sy'n glynu pan fydd hi'n dringo yn uchel i fyny. Ydy hi'n hapus? Na! Mae hi eisiau bod yn fawr a hynny ar unwaith! Ond mae rhywbeth does neb ond Gwenni'n gallu ei wneud.

*Gwenni is great at being the littlest yak, with the grippiest of hooves for clip-clopping up cliffs. Only, Gwenni doesn't want to be the smallest. But what if there are some things that only Gwenni can do?*

32 9781784231972 £5.99 Dref Wen

# Lifia Ann a'r Gwenyn

## Catherine Jacob (Addas. Gwynne Williams)





Os bydd unrhyw drychfilyn mewn helynt neu drwbwl daw Lifia Ann O'Hwligan i'w helpu ar y dwbwl! A fydd Lifia yn llwyddo i helpu ei ffrindiau? Llyfr llawn ffeithiau syfrdanol am drychfilod.

*If any insects are in trouble, Lifia Ann O'Hwligan will help at the double! Will Lifia be able to save her friends? With lots of amazing facts about all kinds of insects. A Welsh translation of* Betsy Buglove Saves the Bees.

32 9781784231811 £6.99 Dref Wen

# Llyfr Trist

**Michael Rosen (Addas. Anwen Pierce)**





Mae pethau trist ym mywydau pawb. Meddwl am ei fab Eddie a fu farw sy'n gwneud Michael Rosen yn fwyaf trist. Yn y llyfr hwn mae'n sgwennu am ei dristwch, sut mae'n effeithio arno, a rhai o'r pethau y mae'n eu gwneud er mwyn ymdopi â'r tristwch.

*There are sad things in everyone's lives. Michael Rosen is mainly sad when he thinks of his son, Eddie, who died. In this book, he writes about his sadness, how it affects him and about some of the things he does in order to cope with the sadness.*

40 9781913733827 £7.99 Graffeg

# Mae gan Bawb Ofidiau / *Everybody Worries*

**Jon Burgerman (Addas. Llinos Dafydd)**





Ffordd hwyliog o archwilio ac ymdopi â gofidiau. Mae'n iawn poeni, ond wnaiff hyn ddim para. Down drwyddi gyda'n gilydd – nawr, gwena!

*This amazing picture book is a fun way of exploring and coping with worries. Everybody worries – and that's okay! Sharing our worries helps us feel better and brings us together.*

dwyieithog bilingual 32 9781849675192 £6.99 Rily

# Mae Pob Uncorn yn Hoffi Enfys ... Tybed?

**Emma Adams (Addas. Gwynne Williams)**




Dydw i ddim yn debyg i unrhyw uncorn arall. Ydw i'n hoffi gwenu'n dlws? Nac ydw. Pethe pinc? Ych a fi! Rydyn ni i gyd yn hoffi pethe gwahanol, ond does dim ots, nag oes? Bod yn ffrindiau sy'n bwysig!

*If you think that you know every unicorn, you are about to have a surprise! I am not like any other unicorn. Do I smile nicely? No. Pink things? Yuck! We all like different things, but that makes no difference, does it? We can still be friends!*

28 9781784231774 £6.99 Dref Wen

# Mae Rita Eisiau Gwrach

**Máire Zepf (Addas. Anwen Pierce)**




Pan mae Rita eisiau hwyl arswydus ddi-stop, ddydd a nos, mae hi'n dymuno cael gwrach. Ond beth fydd yn digwydd os bydd y wrach yn dychryn ei ffrindiau i gyd?

*When Rita wants wild unstoppable spooky fun, day and night, she dreams of owning a witch. But what will happen if the witch scares all her friends?*

40 9781802580419 £7.99 Graffeg

# Mae Rita Eisiau Robot

## Máire Zepf (Addas. Anwen Pierce)




Mae llofft Rita'n llanast ac mae hi am gael robot i'w thacluso. Ond wedi meddwl am y llanast y gallai robot ei greu, mae Rita'n penderfynu mai hi ddylai dacluso ei llofft wedi'r cyfan.

*Rita's bedroom is untidy and she would like a robot to tidy for her, but after thinking further about the mess that a robot could create, Rita decides that she is the best person to tidy her room after all.*

36 9781914079955 £7.99 Graffeg

# Mali a'r Cyfnod Clo

## Malachy Doyle (Addas. Anwen Pierce)





Daeth y cyfnod clo yn sydyn a rhaid i Mali a'i ffrindiau addasu. Mae Mali'n gwneud jig-sos, yn chwarae'r ffidil ac yn gofalu am ei hanifeiliaid anwes. Gyda brechlyn ar y gorwel, mae'r stori hon yn gorffen gyda neges o obaith.

*Mali and her friends are suddenly plunged into a lockdown and have to adapt. She completes jigsaws, plays her fiddle, and looks after her pets. With a vaccine on the horizon, this story ends with a message of hope.*

36 9781914079405 £7.99 Graffeg

# Mali a'r Llongddrylliad

## Malachy Doyle (Addas. Mary Jones)





Mae Mali yn pysgota gyda'i thad, ac mae'n clywed rhywun yn gweiddi am help. Mae gwraig a'i phlant mewn hen gwch bregus sydd mewn perygl o ddymchwel. Mae Mali yn benderfynol o'u helpu.

*While Mali is out fishing with her father, she hears someone crying for help. A woman and her children are in a fragile boat which is in danger of capsizing. Mali is determined to help them.*

36 9781914079566 £7.99 Graffeg

# Mam Lan a Lawr

## Summer Macon (Addas. Anwen Pierce)




Mae byw gyda Mam fel teithio ar reid mewn ffair. Weithiau mae hi'n llawn cyffro ac egni, dro arall mae'n dawel a di-hwyl. Stori sy'n helpu plentyn i ddeall beth sy'n achosi anhwylder deubegwn.

*Living with Mum is like going on the merry-go-round in the fair. Sometimes she's full of life and energy, sometimes she's quiet and depressed. A story that helps a child understand what causes bipolar disorder.*

34 9781913733766 £6.99 Graffeg

# Morfil a Mi dan y Lli / *The Tale of the Whale*

**Karen Swann (Addas. Ceri Wyn Jones)**





Mae'r stori brydferth hon am gyfeillgarwch rhwng plentyn a morfil yn ein gwahodd i ystyried ein cyfrifoldeb tuag at yr amgylchfyd, wrth weld y llygredd yn ein moroedd.

*This beautiful tale of friendship between a child and a whale invites us to consider our responsibilities towards the environment and makes a direct plea to end plastic pollution.*

dwyieithog bilingual 32 9781849676533 £6.99 Rily

# Y Morfil oedd Eisiau Mwy / *The Whale Who Wanted More*

**Rachel Bright (Addas. Manon Steffan Ros)**




Stori arbennig mewn mydr ac odl sy'n annog rhannu a charedigrwydd ac un sy'n trafod cyfeillgarwch a chymuned.

*A special rhyming story that encourages sharing and kindness and discusses friendship, community and discovery.*

dwyieithog bilingual 32 9781801060158 £7.99 Atebol

*Fferm Cwm Cawdel*

# Mwy o Wyliau Fferm Cwm Cawdel

**Gwennan Evans**

Ymunwch efo Ffion a Fflei a'r gwartheg i gyd wrth iddyn nhw fentro ar wyliau arall – ac i Gaerdydd y tro hwn.

*Join Ffion and Fflei and all the cows on another hilarious holiday in Wales – this time to Cardiff!*





40 9781845278229 £6.00 Gwasg Carreg Gwalch

# Mynydd i'w Ddringo

**Myrddin ap Dafydd, Lluniau gan Huw Aaron**

Dyma ni, trip yr Adran Iau. Mae bag ar bob cefn, cap neu ddau, mynydd o'n blaenau a'r gair mawr ydi mwynhau! Ie, taith gerdded Dosbarth Dau, ond ydyn nhw'n mwynhau?


*A story describing Class Two's walk up a mountain called Mynydd Mamoth. But will the children enjoy their walk?*




32 9781845278236 £6.95 Gwasg Carreg Gwalch

## Nadolig Llawen, Sam / *Merry Christmas, Sam*

### Chris Chatterton (Addas. Elin Meek)





Mae Sam y ci pwdlyd yn ôl! Dydy Sam ddim yn hoffi'r Nadolig. Ond a all ychydig bach o garedigrwydd y Nadolig newid ei feddwl?

*Grumpy Sam is back! It's Christmas, but Sam is not a fan. Can this grumpy dog learn to love the season of goodwill?*

dwyieithog bilingual 32 9781784231910 £5.99 Dref Wen

## Nos Da, Tanwen a Twm

### Luned Aaron, Lluniau gan Huw Aaron




Tic, toc, tic, toc, Amser gwely medd y cloc. Mae'n amser noswylio i Tanwen a Twm, ond tydyn nhw ddim yn barod i gysgu eto... Cyfrol dyner a doniol am deulu bach yn setlo gyda'r hwyr.

*A tender and humorous bedtime story with English translation in the back.*

dwyieithog bilingual 32 9781845278199 £6.95 Gwasg Carreg Gwalch

## Pam Oedd Raid i Bopeth Newid? / *Why Did Everything Have to Change?*

### Anna Friend (Addas. Anwen Pierce)





Dyma lyfr teimladwy a gonest am ofidiau plentyn pan fydd ei fyd yn newid yn sydyn. Yn annisgwyl, rhaid i'r ysgol gau ac mae Bili'n poeni... beth fydd yn digwydd nesa, a phryd bydd 'y peth newydd' yma'n mynd?

*A beautiful and honest journey through a child's worries and fears when faced with sudden change. When school suddenly shuts one day, Billy is worried about what will happen next... will things ever return to the way they were before?*

dwyieithog bilingual 24 9781849676144 £5.99 Rily

## Pam?

### Luned Aaron, Lluniau gan Huw Aaron




Mae'r llyfr hwyliog hwn yn codi nifer o gwestiynau gan fachgen bach direidus. Wrth i'r gyfrol fynd rhagddi, bydd y cwestiynau chwareus yn mynd yn fwyfwy dros ben llestri wrth i'r bachgen leisio ei rwystredigaethau.

*A lively book that raises the questions of a mischievous little boy. As the story progresses, the playful questions become increasingly out of hand as the boy voices his frustrations.*

32 9781800990562 £4.99 Y Lolfa

# Y Parsel Coch

## Linda Wolfsgruber, Gino Alberti (Addas. Llio Elenid)




Stori Nadoligaidd ei naws am roi a derbyn anrhegion yw hon – ac mae'n gyfrol werth chweil i'w chyflwyno yn anrheg fydd yn aros yn hir yn y cof.

*A story with a Christmassy atmosphere about giving and receiving presents that will resonate in the memory for a long time. A Welsh adaptation of a magical German story.*

32 9781845278380 £7.95 Gwasg Carreg Gwalch

# Petai'r Byd i Gyd yn...

## Joseph Coelho (Addas. Testun Cyf.)

DARLLEN YN WELL




Mae Taid yn rhoi pensil lliwiau'r enfys i mi ac yn dweud: Ysgrifenna a thynna luniau dy freuddwydion di i gyd. Llyfr lluniau am y cariad rhwng merch fach a'i thaid, ac am gadw'r cariad hwnnw'n fyw trwy atgofion.

*Grandpa gives me rainbow pencils, and tells me: Write and draw pictures of all your dreams. A picture book about the love between a young girl and her grandfather, and about keeping that love alive through memories.*

32 9781913245559 £6.99 Atebol

# Pryder Glain

## Tom Percival (Addas. Testun Cyf.)




DARLLEN YN WELL


Roedd Glain yn ferch hapus nes iddi, un diwrnod ... ddarganfod Pryder. Llyfr cysurlon a sensitif ar gyfer siarad â phlant am rannu eu pryderon cudd.

*Glain loves being Glain until, one day, she finds a Worry. At first it's not such a big worry, but then it starts to grow. How can Glain get rid of it and feel like herself again? A Welsh adaptation of* Ruby's Worry.

32 9781849675406 £6.99 Rily

# Pryderi'r Ddraig

## Dr Sharie Coombes (Addas. Ceri Wyn Jones)





Mae Pryderi'r Ddraig yn edrych ar ôl Elinor Nudd. Ymunwch ag Elinor Nudd wrth iddi ddysgu ei draig nad yw gwneud ffrindiau yn rhywbeth i boeni amdano.

*Pryderi the Dragon is good at looking after Elinor Nudd. Join Elinor Nudd as she tries to teach her dragon that making friends is nothing to worry about.*

24 9781849675895 £5.99 Rily

# Y Smis a'r Smws

## Julia Donaldson (Addas. Gwynne Williams)





Dydy'r Smis coch a'r Smws glas byth, byth yn cael bod yn ffrindiau ... ond beth wnân nhw pan fydd un Smi ac un Smw yn syrthio mewn cariad?

*The blue Smeds and red Smoos are never, ever allowed to be friends ... but what happens when one Smed and one Smoo fall in love? A Welsh adaptation of* The Smeds and the Smoos.

32 9781784231682 £6.99 Dref Wen

# Snip Snap

## Ben Newman (Addas. Elin Meek)




Stori ddoniol am granc direidus a chrocodeil, gyda thudalennau mewnol llai ar gyfer dwylo bach prysur.


*A hilarious story about a cheeky crab and a crocodile, with cut-away pages for busy little hands.*

dwyieithog bilingual 32 9781784231668 £6.99 Dref Wen

*Supertaten*

# Noson y Llysiau Byw

## Sue Hendra, Paul Linnet




Siapiau rhyfedd, synau anghyfarwydd a sŵn llusgo echrydus – beth yw'r rheswm am y digwyddiadau iasol hyn? Ymuna gyda Supertaten a'r criw i gael gwybod, yn yr antur ddiweddaraf yn y gyfres! Addasiad Cymraeg o *Supertato – Night of the Living Veg.*

*Strange shapes, weird noises and eerie shuffling – whatever can be behind these ghostly goings-on? Join Supertato and the gang to find out in their latest adventure! A Welsh adaptation of* Supertato – Night of the Living Veg.

32 9781784231927 £5.99 Dref Wen

# Y Soddgarŵ

## Manon Steffan Ros, Lluniau gan Lily Mŷrennyn




Paid â mynd i'r goedwig! dywedodd pawb. Yn fan'na mae'r Soddgarŵ yn byw! Ro'n i'n gwybod y ffordd drwy'r caeau, felly i ffwrdd â fi ... Stori arbennig am gyfeillgarwch a goddefgarwch.


*Don't go into the forest! said everyone. That's where the greedy Soddgarŵ lives! I knew my way through the fields, so off I went ... A story about acceptance and friendship.*

32 9781801060912 £6.99 Atebol

*Supertaten*

## Swigod Hynod

**Sue Hendra, Paul Linnet**





Mae'r llysiau'n cael eu bath. Ond mae rhywun wedi cyfnewid y cymysgedd swigod am swigod hynod! A fydd Supertaten a'r llysiau eraill yn llwyddo i glirio'r swigod?

*The vegetables are having a bath. But someone has changed the bubble mixture for wonder bubbles! Will Supertaten and the other vegetables succeed in clearing the bubbles? A Welsh adaptation of* Supertato: Bubbly Troubly.

32 9781784231651 £5.99 Dref Wen

## Sut Alla i Greu Enfys? / *How Do You Make a Rainbow?*

**Caroline Crowe (Addas. Mari George)**




Mae'r stori hon yn dangos sut i ddod o hyd i liw a gobaith pan fydd dyddiau'n ymddangos yn dywyll a llwyd. Mae'n dathlu cariad, positifrwydd a'r berthynas rhwng plentyn a'i thad-cu.

*This story shows how to find colour and hope when days seem dim and grey. It celebrates love, positivity and the relationship between a child, her grandad and the wider community.*

dwyieithog bilingual 32 9781849675710 £5.99 Rily

## Sut Rwyt Ti'n Gallu Colli Eliffant? / *How Can You Lose an Elephant?*

**Jan Fearnley (Addas. Elin Meek)**





Mae Owain yn fachgen sy'n colli popeth. Mae Hefin yn eliffant sy'n cofio popeth. Gyda'i gilydd, maen nhw'n ffrindiau gorau, tan i Owain golli rhywbeth pwysig iawn – ei dymer. Stori am gyfeillgarwch, anghytuno a chymodi.

*Owain is a boy who loses everything. Hefin is an elephant who remembers everything. Together, they are the best of friends, until Owain loses something very important – his temper. A story of friendship, falling out and making amends.*

dwyieithog bilingual 32 9781784231699 £6.99 Dref Wen

## Taith Fawr Cenau Bach / *The Way Home for Wolf*

**Rachel Bright (Addas. Eurig Salisbury)**




Does angen help neb ar Cenau, y blaidd bach. Gall wneud pob dim ar ei ben ei hun. Ond ar ôl mynd ar goll, mae'n dysgu fod pawb, o dro i dro, angen ffrind neu ddau i'w helpu.


*Wolf cub doesn't want help from anyone. Whatever it is, he can do it all by himself. But when he finds himself lost and alone, he discovers that sometimes we all need the helping hand of a friend.*

dwyieithog bilingual 24 9781801060165 £7.99 Atebol

*Tomos Llygoden y Theatr*

# Tomos Llygoden y Theatr a Feiolet Pot Blodau

**Caryl Parry Jones, Craig Russell**





Feiolet Pot Blodau yw hoff lanhawraig y llygod. Mae hi'n glên ac yn garedig. Ond hi ydi'r ddynes lanhau waethaf yn y byd i gyd. All Tomos a'i ffrindiau ddod o hyd i ffordd i gadw swydd Feiolet?

*Feiolet Pot Blodau is the mice's favourite cleaner. She is loveable and kind. But she's the worst cleaner in the whole world. Will Tomos and his friends find a way to help Feiolet keep her job?*

66 9781845277376 £4.95 Gwasg Carreg Gwalch

# Y Tywysog Bach / *The Little Prince*

**Antoine de Saint-Exupéry, Louise Greig (Addas. Anwen Pierce)**




Addasiad syml o'r stori enwog â'i themâu oesol – cariad, galar a chyfeillgarwch.

*Adaptation of the classic tale of friendship, loss and love, which has captured the hearts of generations of readers.*

dwyieithog bilingual 32 9781849676007 £6.99 Rily

# Y Wariar Bach

**Leisa Mererid**





Mae dilyn ioga ac ymarferion anadlu yn mynd â Miri ar antur i ymweld ag anifeiliaid o bob math o gwmpas y byd. Dyma ddilyniant i *Y Goeden Ioga.*

*Yoga and breathing exercises lead Miri on an adventure to meet animals of all kinds around the world. This is a sequel to* Y Goeden Ioga.

32 9781800990548 £5.99 Y Lolfa

# Watcyn y Wombat

**Eva Papoušková (Addas. Siân Melangell Dafydd)**




Mae Watcyn eisiau chwarae, ond mae Mami Wombat yn dweud bod yn rhaid iddo ddefnyddio'r poti gyntaf. Mae Watcyn yn ei chael hi'n anodd iawn nes iddo gael cyngor gan ei ffrindiau a Dadi Wombat, ac mae'n llwyddiannus o'r diwedd!

*Watcyn the Wombat wants to play, but Mummy Wombat tells him that he has to use the potty first. Watcyn finds this difficult, until he receives advice from his friends and Daddy Wombat, and at last he is successful!*


36 9781914079931 £7.99 Graffeg

## Weithiau Dwi'n Gandryll / *Sometimes I am Furious*

### Timothy Knapman (Addas. Casia Wiliam)

Llyfr stori-a-llun doniol am yr heriau o fod yn blentyn bach ac o fod yn rhiant i blentyn bach!

*A hilarious and reassuring story about how tough it can be being – and having – a toddler. A Welsh adaptation of* Sometimes I am Furious.





dwyieithog bilingual 32 9781801061629 £12.99 Atebol

## Wnei Di Fod yn Ffrind i Fi? / *Will You Be My Friend?*

### Sam McBratney (Addas. Bethan Mair)

Cyn bo hir daeth Sgwarnog Bach Sbonc i'r Mynydd Mwll. Dyna syrpréis gafodd e ymysg y grug!

*This picture book from the beloved Guess How Much I Love You series celebrates fun, friendship and love, all the way to the moon – and back!*




dwyieithog bilingual 32 9781849676298 £6.99 Rily

## Beibl yr Anturwyr Bach

### Andrew Newton (Addas. Mair Jones Parry)

Llyfr gweithgaredd beiblaidd lliwgar i blant yn cynnwys 100 o weithgareddau, dyfyniadau Beiblaidd, posau a sticeri.

*A colourful biblical activity book for children comprising 100 activities, biblical excerpts, puzzles and stickers.*





112 9781859949269 £7.99 Cyhoeddiadau'r Gair

## Beth Grëwn Ni / *What We'll Build*

### Oliver Jeffers (Addas. Eurig Salisbury)

Beth grëwn ni, ti a fi? Fe wna i dy ddyfodol di, a tithau f'un i. Gwnawn oriawr i gadw'n holl amser ni. Dyma stori oesol am gariad rhiant.

*What shall we create, you and I? I'll create your future and you can create mine. We'll create our time record to safeguard all our memories. A story about the unchanging love of a parent.*




dwyieithog bilingual 42 9781801060172 £12.99 Atebol

*Cwestiynau a Theimladau Ynghylch...*

# Anableddau

### Louise Spilsbury (Addas. Testun Cyf.)

Llyfr lluniau i blant sy'n ystyried sut beth yw bod ag anabledd.

*A picture book for children that considers what it's like to have a disability.*




DARLLEN YN WELL


32 9781913733742 £8.99 Graffeg

*Cwestiynau a Theimladau Ynghylch...*

# Awtistiaeth

### Louise Spilsbury (Addas. Testun Cyf.)

Llyfr lluniau sy'n cynnig cyflwyniad i awtistiaeth ac sy'n esbonio sut fywyd sydd gan blant sydd ag awtistiaeth. Mae'r gyfres hon yn annog plant i ystyried eu hemosiynau a thrafod pynciau sy'n gallu bod yn anodd eu deall.




DARLLEN YN WELL

*A picture book presenting an introduction to autism which attempts to explain what life is like for autistic children. The title is one of a series which encourages children to consider their emotions and to discuss issues that may be difficult to understand.*

32 9781913733728 £8.99 Graffeg


*Cwestiynau a Theimladau Ynghylch...*

# Pryderon

### Paul Christelis (Addas. Testun Cyf.)

Llyfr lluniau sy'n dangos y mathau o bryderon sy'n wynebu llawer o blant heddiw, a sut y medrant oresgyn eu hofnau.

*A picture book showing the various kinds of anxieties children face today, and exploring how they may overcome their fears.*




DARLLEN YN WELL

32 9781913733704 £8.99 Graffeg


*Darllen, Clywed, Siarad / Read, Hear, Speak*

# Llyfr Geiriau Cymraeg / *Welsh Word Book*

### Addas. Lowri Head

Cyfle i gyflwyno dysgu Cymraeg i blant bach. Mae'r llyfr yn cynnwys dros 200 o eiriau ac mae modd eu clywed yn rhad ac am ddim ar bob tudalen. Dyma gyfle i ddarllen, clywed a dweud geiriau Cymraeg.


*Introduce young children to learning Welsh! It features over 200 Welsh words with free audio on each page – a perfect opportunity to read, hear and speak Welsh words.*




dwyieithog bilingual 48 9781849675765 £5.99 Rily

# Dere i Dyfu

## Adam Jones




Llyfr lliwgar, llawn ffeithiau a lluniau i helpu plant i dyfu blodau, ffrwythau a llysiau. Dangosir hefyd sut i ofalu am yr ardd, yng nghwmni dau gymeriad bach hoffus, Dewi Draenog a Beca Broga.

*A colourful book, full of facts and illustrations to help children to grow flowers, fruits and vegetables. It also shows how to care for the garden, with the help of two loveable characters, Dewi the hedgehog and Beca the frog.*

48 9781800991309 £6.99 Y Lolfa

# Fy Llyfr Geiriau Cymraeg / *My First Welsh Words*




Cyfle gwych i weld, darllen a chlywed geiriau Cymraeg newydd. Mae'r gyfrol wedi'i chreu er mwyn cynyddu geirfa'r plentyn a gwneud y cyfan yn bleser ac yn fwynhad.

*This engaging book is packed with words arranged by themes to help boost vocabulary and make learning new Welsh words enjoyable and fun.*

dwyieithog bilingual 48 9781801061100 £9.99 Atebol

*Cyfres Goleuo'r Dudalen*

# Cefnforoedd

## Carron Brown (Addas. Elin Meek)




Pwy sy'n byw o dan y tonnau? Goleua'r dudalen a chei weld … Edrycha'n fanwl ar gefnforoedd y Ddaear a chei weld byd y dŵr sy'n llawn rhyfeddodau mawr a mân!


*Uncover the facts beneath the waves through hidden images. First, view a full-colour scene and read about what is pictured – but what else is there? Shine a torch behind the page to reveal what is hidden.*

36 9781849676274 £6.99 Rily

*Cyfres Goleuo'r Dudalen*

# Gwyliau a Dathliadau

## Carron Brown (Addas. Elin Meek)




Beth mae pobl yn ei ddathlu ym mhedwar ban y byd? Goleua'r dudalen a chei weld … O dân gwyllt a blodau coed ceirios, i Kwanzaa a Dydd Santes Dwynwen, bydd pob tudalen yn mynd â thi i weld gŵyl neu ddathliad rhyfeddol.

*Uncover the facts behind the celebration through hidden images. First, view a full-colour scene and read about what is pictured – but what else is there? Shine a torch behind the page to reveal what is hidden.*

36 9781849676267 £6.99 Rily

# Jig-so Dysgu gyda Sali Mali – Y Tymhorau




Jig-so sy'n dathlu'r tymhorau gyda Sali Mali a'i ffrindiau. Cyfle i chwilio am ryfeddodau byd natur ac i ddysgu enwau misoedd y flwyddyn. Mae'r jig-so yn cynnwys 20 darn cadarn.


*A jigsaw that features Sali Mali and her friends celebrating the seasons. Children will love looking for the wonders of nature and learning the names of the months of the year in this 20-piece jigsaw.*

PP 9781801062220 £8.99 Atebol

*Llyfr Lliwio Hud / Colour Me*

# Ar y Fferm / *Life on the Farm*

## Roger Priddy (Addas. Glyn Saunders Jones)




Llyfr gweithgaredd difyr i blant ifanc. Ychwanegwch liw i'r lluniau drwy baentio dŵr dros y tudalennau. Does dim angen paent. Ar ôl eu paentio, mae'r lliw yn diflannu'n hudol fel y gall y plentyn ail-wneud y gweithgaredd dro ar ôl tro.

*A fun activity book for young children. Add colour to farm pictures by painting over the pages with water – no paints needed! The pages are even reusable. Once painted, the colour magically disappears so that the child can complete the pictures again and again.*

dwyieithog bilingual 14 9781801060882 £7.99 Atebol

# Mae 25% Ohonot yn Fanana / *You Are 25% Banana*

## Susie Brooks (Addas. Mari George)





Ffeithiau difyr ac anhygoel am y modd yr ydym yn perthyn i bopeth byw ar y blaned. Dyma'r eglurhad symlaf erioed i fyd y genynnau a byddwch yn rhyfeddu at yr hyn sy'n eich gwneud chi yn CHI!

*Discover the science behind what makes you, YOU! A brilliantly funny, first guide to genetics and a perfect book for budding young scientists.*

dwyieithog bilingual 32 9781849676373 £6.99 Rily

# Popeth am Amrywiaeth / *All About Diversity*

## Felicity Brooks (Addas. Bethan Mai Jones)




Dyma lyfr sy'n helpu plant i ddeall ac ymfalchïo mewn gwahaniaethau o bob math, gan ddatblygu hunanhyder a chan hyrwyddo cymdeithas gyfartal a theg sydd yn cefnogi datblygiad, addysg a lles pob plentyn.

*This dynamic and joyous exploration of difference helps young children learn to respond in a kind and equal way to everyone, thus developing confidence and promoting development, education and welfare.*

dwyieithog bilingual 32 9781801061490 £9.99 Atebol

# Sut Wyt Ti'n Teimlo Heddiw?

### Molly Potter (Addas. Testun Cyf.)

DARLLEN YN WELL




Mae gan blant deimladau cryfion, ond fedran nhw ddim delio'n dda gyda nhw bob amser. Llyfr yn llawn awgrymiadau hwyliog a dychmygus i geisio helpu plant i ddeall ystod eang o emosiynau.


*Children have strong feelings and can't always handle them well. A book packed with fun, imaginative ways to help children understand and cope with a range of different emotions.*

32 9781849675598 £9.99 Rily

*Tyrd i Ganu / Sing-A-Long*

# Mae'r Olwynion ar y Bws / *The Wheels on the Bus*

### Addas. Llinos Dafydd




Mae'r olwynion ar y bws yn mynd rownd a rownd. Trowch y tudalennau a chanu gyda'r anifeiliaid cyfeillgar wrth iddyn nhw deithio ar y bws bach!

*The wheels on the bus go round and round. Turn the pages and sing along with the animal friends as they journey all through the town!*

dwyieithog bilingual 32 9781849675703 £5.99 Rily

# Tywysoges Disney: 500 Sticer

### Addas. Siân Lewis




Ymunwch â thywysogesau Disney mewn antur sy'n llawn gweithgareddau o bob math! Mae'r gyfrol yn cynnwys 500 o sticeri a llu o weithgareddau a phosau sy'n berffaith ar gyfer pawb sy'n mwynhau straeon Disney.

*Join the Disney princesses for a sticker and activity adventure! With 500 Princess stickers and lots of activities and puzzles, this book is perfect for Disney fans everywhere.*

32 9781849676335 £5.99 Rily

# Cardiau Sbardun Trawsgwricwlaidd Cyfnod Sylfaen

### Siwan Tecwyn Jones




Dyma becyn cynhwysfawr sy'n cynnwys 6 uned yn seiliedig ar lyfrau poblogaidd Atebol. Mae'r pecyn yn cynnwys 30 o gardiau athro sy'n amlinellu gweithgareddau ffocws posib.

*This is a comprehensive package consisting of 6 units based on the popular Atebol books. The pack contains 30 teacher cards outlining possible focus activities.*

9781801062046 £89.00 Atebol

# Cyfres Dewch i Deithio

**Anni Llŷn, Sioned V. Hughes**




Cyfres o 10 llyfr yn cyflwyno diwylliannau ac ieithoedd gwahanol wledydd mewn modd deniadol, hudol a diddorol gyda Min a Mei.

*A series of 10 books presenting cultures and languages from diverse countries in an appealing, charming and interesting format with Min and Mei.*

Am fanylion llawn y gyfres, ewch i www.gwales.com

*For more information about the series, go to www.gwales.com*

£4.99 yr un/each Pecyn/Pack £39.00 Canolfan Peniarth

# Jig-so Anifeiliaid y Goedwig

**L. A. Larsen**



Jig-so 40 darn sy'n llawn o'r anifeiliaid anhygoel a welir yn y goedwig. Pa anifail allwch chi ei ddarganfod? Mae'r jig-so hwn yn berffaith ar gyfer plant iau, sy'n caru natur.

*A 40-piece jigsaw full of the amazing animals found in the forest. What animal can you find? This jigsaw is perfect for younger kids who love nature.*

9781801062428 £8.99 Atebol

# Bywyd Gwyllt yr Arctig / *Wildlife in the Arctic*

**L. A. Larsen**



Jig-so 75 darn sy'n dangos cyfoeth y bywyd gwyllt sydd i'w weld yn yr Arctig, yn cynnwys yr arth wen a'r walrws.

*A 75-piece jigsaw that shows the wealth of wildlife in the Arctic regions, on land and sea.*

9781801061001 £7.49 Atebol

# Jig-so Deinosoriaid Sy'n Hedfan, Rhedeg a Deifio

**L. A. Larsen**



Jig-so 70 darn lle gwelir pob mathau o ddeinosoriaid. Mae'r jig-so hwn yn berffaith ar gyfer unrhyw blentyn sy'n hoff iawn o ddeinosoriaid.

*A 70-piece jigsaw featuring all types of dinosaurs. This jigsaw is perfect for younger, dinosaur-loving kids.*

9781801062435 £8.99 Atebol

*Annalisa Swyn*

# Annalisa Swyn Seren y Sioe

## Harriet Muncaster (Addas. Eleri Huws)

Mae Annalisa Swyn yn wahanol. Tylwythen deg yw ei mam, a fampir yw ei thad, ac mae hithau'n gyfuniad o'r ddau. Mae rhaid iddi gystadlu mewn sioe dalent gyda'r fampirod bach eraill! A fydd Annalisa'n ddigon dewr i berfformio, tybed?




*Annalisa Swyn is different. Her mum is a fairy and her dad is a vampire and she's a bit of both. She's got to compete in a talent show with the other vampire children. Annalisa's talents aren't very vampire-y, what if the audience laugh at her?*

128 9781849675369 £5.99 Rily

# Chwedl Calaffate

## Lleucu Gwenllian

Os ei di i'r Wladfa, rwyt ti'n siŵr o gael cynnig jam ffrwyth y Calaffate, ac rwyt ti'n sicr o weld y blodau aur tlws yn tyfu dros y paith. Yn ôl y sôn, caiff pawb sy'n blasu'r ffrwyth eu swyno.




*If you go to Patagonia, you will certainly be offered some Calafate fruit jam, and you are sure to see its beautiful golden flowers growing all over the pampas. Everyone who eats the fruit will fall under its spell.*


50 9781845278182 £6.50 Gwasg Carreg Gwalch

*Gorau'r Goreuon*

# Dirgelwch y Dieithryn

## Elgan Philip Davies

Pan mae Iwan, Mair a'i ffrindiau'n gweld dyn dieithr, blin yn y tŷ gwag wrth y parc maen nhw'n gwybod yn syth beth yw e – lleidr! Eu tasg nhw dros wyliau'r haf yw ei ddal. Rhaid cael cynllun, a hynny ar unwaith – ymunwch â'r ffrindiau yn eu hantur gyffrous!




*When Iwan, Mair and their friends spot a stranger in the empty house near the park, they know at once that something's amiss. He must be a thief, and they need to hatch a plan at once to catch him. Join the friends on their summer adventure!*


64 9781800991378 £5.99 Y Lolfa

*Y Gwningen a'r Arth*

# Tamaid i Aros Pryd

## Julian Gough (Addas. Casia Wiliam)

Pan ddaw tylluan fechan i darfu ar Cwningen ac Arth pan maen nhw'n nofio, mae Arth am ddysgu rhagor, ond mae Cwningen yn adrodd straeon arswyd ac am garcharu'r aderyn cysglyd. Addasiad Cymraeg o *Attack of the Snack*.





*When Rabbit and Bear's swim is disturbed by a small owl, Bear is interested in learning more but Rabbit relates horror stories, and wants to imprison the sleeping bird. A Welsh adaptation of* Attack of the Snack.

112 9781801060806 £6.99 Atebol

# Pwyll a Rhiannon

## Aidan Saunders (Addas. Mererid Hopwood)




Daw stori Pwyll a Rhiannon o gainc gyntaf y Mabinogi. Gyda'i helfa gyffrous, rhamant, twyll a dewiniaeth, mae'r chwedl hynafol hon, gyda'i gwreiddiau'n ddwfn yng ngorffennol pell y Celtiaid Cymreig, wedi ysbrydoli sawl chwedl newydd.

*Pwyll and Rhiannon's story is the cornerstone of the Mabinogi. With epic chases, romance, deceit and sorcery, the ancient legend burrows deep into Wales' faraway Celtic past and has inspired many new myths.*

dwyieithog bilingual 40 9781801060820 £6.99 Atebol

# Sara Mai a Lleidr y Neidr

## Casia Wiliam




Mae Sara Mai yn ei hôl! Mae pob math o anifeiliaid diddorol yn sw Sara Mai, gan gynnwys neidr brin iawn. Ond pwy fyddai eisiau dwyn neidr?

*Sara Mai is back! All kinds of interesting creatures live in the zoo run by her family, including a very rare snake. But who would want to steal a snake?*

148 9781800991170 £5.99 Y Lolfa

# Seren a Sbarc a'r Pei(riant) Amser

## Huw Aaron, Elidir Jones




Ymunwch â gwibdaith wyllt trwy hanes Cymru ar y peiriant amser mwyaf blasus erioed! Deinosoriaid, môr-ladron, tywysogion ac arwyr lu... ond a fydd Seren a Sbarc yn cyrraedd adref mewn pryd? Llyfr mewn arddull comic.

*Join a madcap adventure through Welsh history using the tastiest time machine ever! With dinosaurs, princes, pirates and battles in their way, will our heroes get home in time? This book is presented in an easy-to-read comic book style.*

96 9781914303104 £5.50 BROGA

# Seren a Sbarc yn Achub (Cwpan) y Bydysawd

## Huw Aaron, Elidir Jones




A fydd sgiliau rygbi yn ddigon i drechu'r robo-anghenfil sy'n ymosod ar ddinas Tokyo? Ymunwch â'r arwyr Seren a Sbarc wrth iddyn nhw ddilyn tîm rygbi Cymru i Siapan, a cheisio ennill cwpan y bydysawd! Llyfr mewn arddull comic.

*Will rugby skills be enough to beat the robo-monster who is attacking Tokyo? Join Seren and Sbarc as they try to save the Universe (Cup)! This book is presented in an easy-to-read comic book style.*

96 9781914303135 £5.50 BROGA

# Stori Blodeuwedd

**Siân Lewis, Lluniau gan Valériane Leblond**





Y Mabinogi yw chwedlau hynaf ac enwocaf Cymru. Mae'r chwedlau wedi para cyhyd am eu bod yn dal i gydio yn y dychymyg â'u hud a lledrith, eu hantur, eu rhamant a'u rhyfeddodau unigryw. Dyma stori Blodeuwedd.

*A new series of four individual books featuring the four branches of the Mabinogi, the oldest and most famous legends in Wales. This is the story of Blodeuwedd.*

40 9781849676557 £4.99 Rily

# Stori Branwen

**Siân Lewis, Lluniau gan Valériane Leblond**





Y Mabinogi yw chwedlau hynaf ac enwocaf Cymru. Mae'r chwedlau wedi para cyhyd am eu bod yn dal i gydio yn y dychymyg â'u hud a lledrith, eu hantur, eu rhamant a'u rhyfeddodau unigryw. Dyma stori Branwen.

*A new series of four individual books featuring the four branches of the Mabinogi, the oldest and most famous legends in Wales. This is the story of Branwen.*

40 9781849676564 £4.99 Rily

# Stori Manawydan

**Siân Lewis, Lluniau gan Valériane Leblond**





Y Mabinogi yw chwedlau hynaf ac enwocaf Cymru. Mae'r chwedlau wedi para cyhyd am eu bod yn dal i gydio yn y dychymyg â'u hud a lledrith, eu hantur, eu rhamant a'u rhyfeddodau unigryw. Dyma stori Manawydan.

*A new series of four individual books featuring the four branches of the Mabinogi, the oldest and most famous legends in Wales. This is the story of Manawydan.*

40 9781849676588 £4.99 Rily

# Stori Pwyll

**Siân Lewis, Lluniau gan Valériane Leblond**




Y Mabinogi yw chwedlau hynaf ac enwocaf Cymru. Mae'r chwedlau wedi para cyhyd am eu bod yn dal i gydio yn y dychymyg â'u hud a lledrith, eu hantur, eu rhamant a'u rhyfeddodau unigryw. Dyma stori Pwyll.


*A new series of four individual books featuring the four branches of the Mabinogi, the oldest and most famous legends in Wales. This is the story of Pwyll.*

40 9781849676571 £4.99 Rily

*ABC yr Opera*

## Academi Benwan y Cyfansoddwyr – Clasurol

### Mark Llewelyn Evans (Addas. Anwen Pierce)





Ar drip ysgol, mae Jac a Megan yn cyfarfod eu hen ffrind, Cist. Mae'r tri yn mynd ar wib yn ôl i Academi Benwan y Cyfansoddwyr, gan fentro i fyd yr opera – i'r Cyfnod Clasurol (1750–1820).

*On a school trip, Jac and Megan meet their old friend, Cist. The three friends take a trip back in time to the Academy for Barmy Composers, venturing to the world of opera – to the Classical Period (1750–1820).*

68 9781913634254 £8.99 Graffeg

## Beibl yr Anturwyr Mawr

### Andrew Newton (Addas. Mair Jones Parry)




Llyfr gweithgaredd beiblaidd lliwgar i blant 7–11 oed yn cynnwys 100 o weithgareddau, dyfyniadau beiblaidd, posau a sticeri.


*A colourful biblical activity book for 7–11-year-old children comprising 100 activities, biblical excerpts, puzzles and stickers.*

112 9781859949276 £7.99 Cyhoeddiadau'r Gair

## Beth Sy'n Digwydd yn fy Mhen?

### Molly Potter (Addas. Testun Cyf.)

DARLLEN YN WELL




Rydyn ni i gyd yn gwybod bod meddwl iach yn bwysig dros ben, ond sut mae gwneud yn siŵr ein bod ni'n gofalu am ein hiechyd meddwl o oedran ifanc? Mae'r llyfr yma i blant yn edrych ar ffyrdd ymarferol o gadw ein meddwl a'n corff mewn cyflwr da.


*We all know that mental health is very important, but how do we ensure that we look after our mental health from a very early age? This book for children looks at practical ways to keep our minds and bodies healthy.*

32 9781913733780 £10.99 Graffeg

## Delio â Bwlio

### Jane Lacey (Addas. Testun Cyf.)

DARLLEN YN WELL




Llyfr sy'n dysgu plant sut i ddelio â bwlis. Ceir saith stori yn y gyfrol, pob un yn portreadu ystod o broblemau bwlio, o ferch a gaiff ei hanwybyddu gan ei ffrindiau i fachgen a gaiff ei fwlio am y ffordd y mae'n siarad.

*This book teaches readers how to deal with bullies. It features seven stories from children who have a range of bullying problems, from a girl who is ignored by her friends to a boy who is bullied for the way he speaks.*


32 9781849675604 £8.99 Rily

# Dw I'n Bril!

## Wynne Kinder (Addas. Glyn Saunders Jones)

Rwy'n gryf. Rwy'n ddewr. Rwy'n gallu delio ag unrhyw beth. Llyfr fydd yn helpu plant i fod yn bositif am yr heriau sy'n eu hwynebu yn ystod eu plentyndod.

*I am strong. I am brave. I can handle anything. A book that will help all children to be positive about the challenges they face during childhood.*




72 9781801061483 £10.99 Atebol

# Ha Ha Cnec! – Jôcs Twp a Lluniau Twpach

## Huw Aaron

Casgliad o jôcs twp a lluniau twpach. Cartwnau, rhigymau a thwpdra o bob math.

*A collection of very silly jokes, and even sillier pictures. Chock-full of humour and zany illustrations.*





64 9781914303005 £1.00 BROGA

# Help gyda Mathemateg – Ffracsiynau / *Help with Maths – Fractions*

## L. A. Larsen

Dyma gyfle gwych i'ch plentyn i ddysgu ffracsiynau. Mae'r gweithgaredd addysgol hwn yn gyfrwng i esbonio'r cysyniad o ffracsiynau mewn ffordd ymarferol fel bod y plentyn yn eu deall. Mae'r jig-so hwn yn cynnwys 35 o ddarnau cadarn.

*This is an ideal educational activity to understand and learn fractions. This is a practical tool that will assist learners to fully understand the concept of fractions. The jigsaw includes 35 robust pieces.*




9781801061018 £8.99 Atebol

*Lego*

# Lego – Hanes Epig

## Rona Skene (Addas. Elin Meek)

